Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru
North & Mid Wales Trunk Road Agent

# Adroddiad y Cydbwyllgor

**18fed o Fedi 2020**

Yn gweithio ar ran
Llywodraeth Cymru
Working on behalf of the
Welsh Government

| Cynnwys | Tudalen |
| --- | --- |
| 1. Cyflwyniad | 3 |
| 2. Dyrannu gwaith i Unedau Darparu Gwasanaeth (UDGau) Awdurdodau Lleol | 3 |
| 3. Trefniadau’r Bartneriaeth | 9 |
| 4. Gwasanaeth Traffig Cymru Llywodraeth Cymru | 9 |
| 5. Cydymffurfio â Gofynion LlC | 9 |
| 6. Perfformiad | 10 |
| 7. Gwelliant Parhaus | 10 |
| 8. Anghydfodau ynghylch Gwasanaethau | 10 |

**ATODIADAU**

**Atodiad A - Cofrestr Risg Partneriaeth ACGCHC**

**Atodiad B - Dadansoddi Data Gwasanaeth Traffig Cymru**

**Atodiad C - Adroddiad Gwasanaeth Swyddogion Traffig**

**Atodiad D - Perfformiad Unedau Gwaith Awdurdodau Partner**

**Atodiad E - Adroddiad Cynnydd a Pherfformiad Ymgynghoriaeth yr Awdurdod Partner**

**Atodiad F - Adroddiad Statws Contractau Fframwaith ACGCHC**

**Atodiad D - Cylch Gorchwyl y Cydbwyllgor**

## 1 Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth ar y pynciau ddaw o dan gylch gorchwyl penodol y Cydbwyllgor. Y cyfnod adrodd yw blwyddyn ariannol 2019/20.


## 2 Dyrannu gwaith i Unedau Darparu Gwasanaeth (UDGau) yr Awdurdodau Lleol

2.1 Parhawyd i glustnodi gwaith i'r holl Awdurdodau Partner (AP) ar draws prif feysydd ymarferol yr Asiant ar gyfer Gwasanaethau Ymgynghorol a Gwaith yn unol â Chytundebau Darparu Gwasanaeth (CDGau) ACGCHC. Er gwaethaf gweithredu mesurau y cyfnod clo yn ystod mis Mawrth 2020, llwyddodd yr holl APau i gyflawni rhaglen lawn. Cyflawnwyd y gwaith drwy gydol y cyfnod clo estynedig i 2020/21 gan ddarparu'r rhaglen gynnal a chadw gylchol yn llawn, sydd yn glod mawr i Ddarparwyr gwasanaethau yr AP ac mae hyn wedi ei gydnabod yn llawn gan Weinidogion Cymru. Llwyddwyd i gynnal y gwaith o ddarparu gwaith cyfalaf drwy Gontractwr ACGCHC a'r Fframweithiau Ymgynghori gyda rhaglen sylweddol o waith wedi ei ymgymryd yn ystod y cyfnod clo i fanteisio ar niferoedd sylweddol is o draffig a chynnal hyfywdra cadwyn gyflenwi ACGCHC.

2.2 Darperir y statws ariannol a'r rhagolygon i'r holl brif feysydd gwariant yn y ffigyrau isod:


**Ffigwr 1**
**Costau Hawlio Terfynol ACGCHC 2018/19 yn erbyn 2019/20**







**Ffigwr 2**

**Costau Hawlio Terfynol ACGCHC 2018/19 yn erbyn 2019/20**





**Gwariant ACGCHC 2019/20 yn ôl Llwybr**





*Traws Rhwydwaith / Arall: yn cynnwys Ynni / Archwilio / Rheoli Asedau / Holl Wariant Categori 1*


**Ffigwr 3**
**Holl Gostau Cyfunol Unedau Gwaith AP - Gwariant am 2018/19 a 2019/20**





**Ffigwr 4**
**Costau Unedau Gwaith AP Heb gynnwys y Gaeaf a Ffioedd - Gwariant am 2018/19 a 2019/20**




**Ffigwr 5**
**Gwasanaeth y Gaeaf - Gwariant 2018/19 a 2019/20**




**Ffigwr 6**
**Costau Uniongyrchol ACGCHC fesul Swyddogaeth 2016/17 i 2019/20**



**Ffigwr 7**
**Gwariant Cyfalaf fesul Math i Gontractwyr Fframwaith ac Eraill (ac eithrio APau) 2016/17 i 2019/20**




| Contract | 2016/2017 | 2017/2018 | 2018/2019 | 2019/2020 |
|---|---|---|---|---|
| Consultancy Framework | £634,950.23 | £995,806.00 | £4,625,984.64 | £3,616,230.46 |
| Contractor Framework | £9,337,020.56 | £5,082,434.74 | £2,201,447.05 | £4,331,100.31 |
| Other Contractors and Creditors | £2,471,760.80 | £1,782,406.07 | £1,056,731.42 | £1,247,795.11 |
| Surfacing Framework | £16,028,888.82 | £7,727,863.61 | £5,907,568.38 | £14,189,122.80 |
| Technology Framework | | | £134,978.31 | £881,551.10 |
| Technology Maintenance | | | £816,966.93 | £1,255,360.17 |
| **Total** | **£28,472,620.41** | **£15,588,510.42** | **£14,743,676.73** | **£25,521,159.95** |

## 3. Trefniadau'r Bartneriaeth

3.1 Parhaodd y bartneriaeth i weithio'n dda gyda lefel dda o gydweithio a pherfformiad, yn enwedig wrth gwrdd â'r sialensiau a gyflwynwyd gan fesurau cyfnod clo Covid-19. Llwyddwyd i gyflawni'r holl waith yn 2019/20 ac yn ôl yr arwyddion bydd yr holl waith am 2020/21 hefyd yn cael ei gyflawni. Roedd yr APau yn gallu addasu i'r ddeddfwriaeth newydd drwy addasu arferion gwaith ac asesiadau risg i amddiffyn eu gweithlu.

3.3 **Gweithredu'r Cytundeb Darparu Gwasanaeth (CDG)**

Mae'r CDG yn parhau i ddarparu'r sail ar gyfer asesu perfformiad yr AP a'i gydymffurfiad yn erbyn y meini prawf perfformiad diffiniedig er mwyn gweithredu gofynion Llawlyfr Cynnal a Chadw Cefnffyrdd Llywodraeth Cymru (WGTRMM). Yn gyffredinol, mae APau yn parhau i gyflawni lefelau da o gydymffurfiad yn y rhan fwyaf o ardaloedd.

3.4 **Cofrestr Risg y Bartneriaeth**

Adolygwyd a diweddarwyd hon i adnabod y risgiau i Bartneriaeth ACGCHC ac i ddangos bod camau gweithredu cyfredol yn digwydd i reoli a lliniaru risgiau lle bo hynny'n bosib. Mae Cofrestr Risg y Bartneriaeth wedi'i hatodi fel Atodiad A. Mae ACGCHC wedi gweithredu nifer o fesurau lliniaru risg mewn ymateb i Covid 19, yn cynnwys gweithio o gartref i fwyafrif y staff swyddfa gyda'r staff gweithredol yn gweithredu cerbydau yn unigol.

## 4. Gwasanaeth Traffig Cymru (GTC) Llywodraeth Cymru

4.1 Mae Gwasanaeth Traffig Cymru (TC) bellach yn hollol weithredol ac yn ymdrin â'r cyfan o Gymru gan yn adrodd ar ddwy ardal Asiant y Cefnffyrdd. Mae TC wedi darparu gwasanaeth cyfathrebu hynod o effeithiol yn ystod cyfnod clo Covid-19 gan hysbysu'r cyhoedd am gyfyngiadau teithio a negeseuon diogelwch.

4.2 Ceir data yn dangos darpariaeth y gwasanaeth a'r ystod yn Atodiad B sy'n dangos twf parhaus a gwell effeithiolrwydd y gwasanaeth.

## 5. Gwasanaeth Swyddogion Traffig (GST) Llywodraeth Cymru

5.1 Mae'r Gwasanaeth Swyddogion Traffig yn parhau i ddarparu gwell cydnerthedd i goridorau ffyrdd deuol yr A55/A494 a'r A483 gan ddelio gyda mwy na 10,000 o ddigwyddiadau yn flynyddol. Mae'r lefelau gwasanaeth wedi cael eu cynnal yn ystod cyfnod clo Covid, er y bu prinder staff oherwydd gofynion cysgodi. Ceir crynodeb o ddata perfformiad y gwasanaeth yn Atodiad C.

**6. Cynrychiolydd yr Adran ar Gontract Dylunio, Adeiladu, Ariannu a Gweithredu (DBFO) yr A55 Llywodraeth Cymru.**

Mae ACGCHC yn parhau i ddarparu’r gwasanaeth hwn i Lywodraeth Cymru drwy ddefnyddio adnoddau staff mewnol. Mae'r contract DBFO rhwng Llywodraeth Cymru ac UK Highways Ltd yn gymwys tan fis Rhagfyr 2028. Mae ACGCHC yn awr yn cynorthwyo gyda'r broses gymhleth o gyflwyno yn ôl, ac mae'n rhaid cwblhau hyn cyn diwedd y contract a phryd hynny bydd cyfrifoldebau gweithredol a cynnal a chadw yn trosglwyddo i LlC a ACGCHC.

**7. Bodloni Gofynion LlC o ran Cytundeb yr Asiant**

Uned Rheoli Cefnffyrdd (URhC) sy'n gyfrifol am sicrhau bod gofynion LlC, fel a nodir yng Nghytundeb yr Asiant (WGMAA), yn cael eu bodloni. Nid oes unrhyw faterion yn ymwneud â gofynion WGMAA wedi eu codi gan LlC yn y cyfnod adrodd gyda sylwadau cadarnhaol iawn yn cael eu derbyn gan LlC a'r Gweinidogion am y ffordd mae ACGCHC a'i bartneriaid awdurdod lleol wedi codi i'r heriau a gyflwynwyd gan Covid-19.

**8. Grŵp Llywio’r Asiant**

Ni chynhaliwyd cyfarfodydd Grŵp Llywio'r Asiant yn ystod y cyfnod adrodd.

**9. Systemau Rheoli Ansawdd TRMU (SRhA)**

9.1 Archwiliwyd cydymffurfiaeth yr Asiant yn erbyn ISO 9001 (System Rheoli Ansawdd), ISO 14001 (Systemau Rheoli Amgylcheddol) a 45001 (Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol) gan BSI yn ystod mis Medi, Hydref a Thachwedd 2019 ac roedd yr Asiant yn llwyddiannus i gadw'r achrediad i'r tri safon. Yn ystod yr archwiliad, codwyd naw mân achos o ddiffyg cydymffurfio oedd yn ychwanegu at y ddau oedd yn parhau yn agored o'r archwiliadau blaenorol.

Cytunwyd ar gynllun o gamau unioni a'u gweithredu i ddelio â'r diffyg cydymffurfio gan adolygu'r effeithiolrwydd yn yr archwiliad BSI nesaf, a drefnwyd ym mis Mehefin a Gorffennaf 2020. Y rheswm am y newid mewn amlder / amser yr archwiliad nesaf oedd bod archwiliad 2020 hefyd yn Adolygiad Strategol yr Asiant ac yn unol â thelerau ac amodau Achrediad BSI rhaid i'r archwiliad ddigwydd yn gynharach i sicrhau parhad yr ardystiad.

Yn anffodus, oherwydd pandemig COVID-19, a hefyd yn dilyn trafodaethau gyda BSI, cafodd yr Archwiliad drefnwyd ar gyfer Mehefin a Gorffennaf 2020 ei rannu yn ddau ymweliad ar wahân. Byddai'r archwiliad cyntaf yn digwydd ym mis Mehefin 2020 gyda rhan olaf yr archwiliad yn ystod mis Medi a Hydref 2020.

9.2 Yn ystod archwiliad Mehefin 2020, codwyd pedwar mân achos o ddiffyg cydymffurfio a chaewyd chwech o'r rhai a godwyd yn flaenorol ac roedd yr archwiliwr o'r farn bod y camau unioni wedi bod yn effeithiol. Cafodd cynllun gweithredu mesurau unioni ei weithredu i ymdrin â'r pedwar achos o ddiffyg cydymffurfio a godwyd ac adolygir

effeithiolrwydd y camau unioni a wnaed i ymdrin â'r materion hyn gan BSI yn ystod archwiliad Medi/Hydref 2020. Mae'r Asiant hefyd yn gweithio i gau'r pedwar mân achos o ddiffyg cydymffurfio a godwyd cyn archwiliad 2020.

## 10. Perfformiad yr Awdurdod Partner

### 10.1 **Unedau Gwaith AP**

Parheir i gadw llygaid barcud ar y perfformiad yn erbyn Diffygion Categori 1 (CAT1), sef y diffygion hynny sy'n rhoi'r cyhoedd sy'n teithio mewn perygl uniongyrchol. Gwneir hynny oherwydd ei fod yn weithgarwch risg uchel i LlC, ACGCHC a'i Awdurdodau Partner. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i'r cyfnod 24 awr sydd ei angen i wneud diffyg yn "Ddiogel". Mae'r ystadegau perfformiad yn parhau i ddangos fod y targedau perfformiad yn cael eu cwrdd yn gyson, ac mae hyn wedi lleihau'r risgiau cysylltiedig i LlC, ACGCHC a'r APau. Gweler adroddiad perfformiad Unedau Gwaith yr AP am 2019/20 yn Atodiad D.


### 10.2 **Meincnodi AP**

Diweddarwyd y adroddiad meincnodi i waith cynnal a chadw cylchol arferol a dengys fod arbedion cost wedi eu cyfuno. Ceir mymryn o gynnydd mewn costau ar gyfer cynnal a chadw cylchol yn 2017/18, o'i gymharu â chostau 2016/17. Fodd bynnag, priodolir y cynnydd hwn i nifer o ffactorau sydd tu hwnt i reolaeth ACGCHC a'r APau gan gynnwys cynnydd mewn stocrestr yn dilyn gwelliannau yn yr archwiliadau a gynhelir ar ôl mewnoli'r gwasanaeth. Priodolir cynnydd eraill i ambell newid mewn arferion gwaith sydd eu hangen i ddiwallu gofynion Iechyd a Diogelwch. Cafodd y costau eu cyfuno yn 2018/19 gyda gwerth cyffelyb i 2017/18.

Yn gyffredinol, roedd costau 2019/20 yn unol â 2018/19 er eu bod yn dangos mymryn o gynnydd sydd yn bennaf oherwydd gwaith cynnal a chadw Hydrefol ychwanegol ar ymylon yr A55 o tua £56k.

Gweler darlun o'r costau cynnal a chadw cylchol wedi'u haddasu ar gyfer chwyddiant yn Ffigwr 7.

**Ffigwr 7**
**Meincnodi Cynnal a Chadw Cylchol**




Noder bod Costau wedi eu haddasu o'r naill flwyddyn i'r llall ar gyfer Chwyddiant yn unol â mynegeion BCIS.

## 11. Ymgyngoriaethau'r AP

11.1 Mae adroddiad cynnydd a pherfformiad ymgyngoriaethau am 2019/2020 hyd yma wedi'i gynnwys yn **Atodiad E**.

## 12. Fframweithiau Sector Preifat

12.1 Mae contractau fframwaith ACGCHC yn parhau i weithio'n dda gyda pherfformiad da yn cael ei gyflawni gan gontractwyr ac ymgynghorwyr. Mae adroddiad cryno yn amlinellu statws Fframweithiau ACGCHC wedi'i gynnwys yn Atodiad F.

## 13. Gwelliant Parhaus

13.1 Erbyn hyn, mae Offeryn Rheoli Busnes ACGCHC wedi'i weithredu'n llawn ac wedi cyrraedd lefel aeddfedrwydd rhesymol gyda data a chamau gweithredu manwl wedi eu cynnwys a'u defnyddio i reoli cynnydd yn erbyn amcanion busnes i gynorthwyo gyda gwelliant parhaus, rheoli risg ac i ddiwallu nodau ac amcanion strategol. Roedd y system yma o gymorth sylweddol gyda archwiliad 2020 BSI.

## 14. Anghydfodau dan Gymal 9.6 y Cytundeb Partneriaeth

14.1 Mae Cymal 9.6 y Cytundeb Partneriaeth yn nodi proses uwchgyfeirio i datrys anghydfodau a allai godi rhwng y TRMU a'r Awdurdodau Partner. Gellir cyfeirio anghydfodau o'r fath at y Cydbwyllgor iddo ddod i benderfyniad, os ydynt yn parhau heb eu datrys.

14.2 Ar hyn o bryd, nid oes materion sydd wedi'u huwchgyfeirio dan y broses hon i'w hystyried gan y Cydbwyllgor.

# ATODIAD A

# Cofrestr Risgiau Partneriaeth ACGCHC

| Rhif | RISG | Tebygolrwydd | Effaith | Sgôr Risg: Tebygolrwydd x Effaith | EFFAITH Y RISG | PERCHENNOG Y RISG | GWEITHREDU RISG | LLINIARU HYD YMA | Tebygolrwydd | Effaith | Sgôr risg yn dilyn camau lleddfu Tebygolrwydd x Effaith |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2P | Methu cwrdd â gofynion cyflawni gwasanaeth LlC. | 4 | 4 | 16 | 1. Yn dibynnu ar natur ac ehangder y methiant, camau gweithredu posib gan LlC yw:- a) Asiant i weithredu cynllun i unioni'r sefyllfa<br>b) Newid darparwr gwasanaeth i ardaloedd gwasanaeth sy'n tangyflawni<br>c) Dod â'r Asiant i ben | Arweinydd a Phartneriaid | 1. Cynnal perfformiad yn ôl lefelau targed gofynnol LlC. | 1. Monitro perfformiad yn rheolaidd gan TRMU a LlC.<br>2. Grŵp Llywio'r Asiant/LlC yn adnabod ac yn mynd i'r afael gyda phroblemau posib.<br>3. Parhau i gydymffurfio gyda'r Systemau Rheoli Ansawdd.<br>4. Rôl craffu'r Cydbwyllgor.<br>5. Y drefn archwilio wedi'i rhoi ar waith.<br>6. SOR diwygiedig wedi'i weithredu a'i gadarnhau fel y model caffael sydd orau gan LlC.<br>7. AP mewnol cryf a meincnodi sector preifat.<br>8. Ffi sefydlog comisiynu wedi'i weithredu i wasanaethau ymgynghori gyda phrofion marchnad priodol.<br>9. Perfformiad boddhaol wedi'i gadarnhau gan archwilwyr allanol LlC.<br>10. Gweithredu CDG 2016 yn gwella eglurder gofynion<br>11. Adrodd arferol mewn Cyfarfodydd Penaethiaid Gwasanaeth yn erbyn meini prawf perfformiad CDG. Ymdrin â'r materion a nodwyd.<br>12. Datblygu dangosfwrdd perfformiad, ac adrodd ar berfformiad yn fisol<br>13. System Datblygu Busnes ACGCHC bellach yn aeddfed ac yn cael ei defnyddio yn rhyngweithiol i reoli datblygiad busnes a gwelliant parhaus | 1 | 3 | 3 |
| 3P | Methu cwrdd â gofynion rheolaeth Ariannol LlC. | 4 | 4 | 16 | 1. Methu cwrdd â gofynion cyllidebol LlC<br>2. Niwed sylweddol posib i enw da'r Asiant a'r AP a allai fygwth dyfodol yr Asiant.<br>3. Anallu i wneud y defnydd gorau posib o'r cyllidebau<br>4. Effaith niweidiol ar lif arian yr AP<br>5. Llai o gyfle i gael arian ychwanegol gan LlC yn ystod y flwyddyn gan y tybir bod y tanwariant ar y gyllideb bresennol. | Arweinydd a Phartneriaid | 1. Cynnal perfformiad yn ôl lefelau targed gofynnol LlC.<br>2. Ymdrin â'r ôl-groniad Tocynnau Gwaith a gwella gwaith cwblhau i gyrraedd targed 80% cyn pen 10 niwrnod | 1. System Gyfrifeg Ymrwymo wedi ei sefydlu gan TRMU<br>2. SOR newydd wedi ei weithredu ar y cyd gydag anfonebu misol.<br>3. Sicrwydd cost yn yr Atodlen Gyfraddau a'r briffiau sydd wedi'u prisio.<br>4. Y drefn archwilio wedi'i rhoi ar waith.<br>5. Ffi sefydlog comisiynu wedi'i gweithredu ar gyfer gwasanaethau ymgynghori gyda thaliad wedi cwblhau'r cerrig milltir.<br>6. Gweinyddiaeth Dechnegol ddiwygiedig CDG wedi'i gweithredu<br>7. Ôl-groniad Tocynnau Gwaith wedi ei godi gyda Phenaethiaid Gwasanaeth AP.<br>8. Lefelau cwblhau Tocynnau Gwaith wedi gwella'n sylweddol.<br>9. Perfformiad dangosfwrdd a Power BI yn cael eu defnyddio gan adrodd yn erbyn perfformiad cyflawni gwasanaeth | 1 | 4 | 4 |
| 4P | LlC yn dod â'r Asiant i ben o ganlyniad i benderfyniad gwleidyddol. | 3 | 5 | 15 | 1. Terfynu'r Bartneriaeth.<br>2. Posibilrwydd colli incwm sylweddol.<br>3. Posibilrwydd y bydd goblygiadau staffio sylweddol.<br>4. Posibilrwydd o golled sylweddol i'r economi leol. | Arweinydd a Phartneriaid | 1. Cynnal perfformiad ac enw da'r Asiant a'r ddarpariaeth AP.<br>2. Gwelliant parhaus i ddangos gwerth am arian.<br>3. Cysoni'r Atodlen Gyfraddau a'r prosesau cyflawni.<br>4. Mabwysiadu dulliau arfer gorau o weithio i wella effeithlonrwydd | 1. Adolygiad mawr gan LlC wedi'i gwblhau...<br>2. Cyflwyniad ac achosion busnes ACGCHC Ebrill 2015 wedi'u derbyn gan LlC.<br>3. Newidiadau allweddol i Achosion Busnes Model yr Asiant wedi eu gweithredu yn llwyddiannus yn Ebrill 2016<br>4. Arbedion effeithlonrwydd eilaidd yn gysylltiedig â Newid Model bellach yn cael eu gwireddu.<br>5. Mae arbedion cost a aseswyd yn erbyn costau alldro 2016/17 yn dangos bod arbedion targed wedi eu cyflawni yn amodol i archwiliad LlC. | 1 | 5 | 5 |

| Rhif | RISG | Tebygolrwydd | Effaith | Sgôr Risg: Tebygolrwydd x Effaith | EFFAITH Y RISG | PERCHENNOG Y RISG | GWEITHREDU RISG | LLINIARU HYD YMA | Tebygolrwydd | Effaith | Sgôr risg yn dilyn camau lleddfu Tebygolrwydd x Effaith |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | gweithrediadau.<br>5. Cyflawni'r achosion busnes lleihau costau a gyflwynwyd gan ACGCHC yn Ebrill.<br>6. Cyflawni arbedion cost targed estynedig LIC.<br>7. Tystiolaeth ac adrodd am arbedion cost i Archwilwyr LIC i'w wneud - yn aros am benderfyniad LIC. | 6. Arbedion cost terfynol 2017/18 wedi'u cyflawni ac adroddiad wedi'i gyflwyno gan yr Asiant i gael Cygnor Gweinidogol | | | |
| 6P | Un AP yn tynnu'n ôl o'r Bartneriaeth | 2 | 3 | **6** | Bygythiad i ddarpariaeth gwasanaeth ar rwydwaith y Cefnffyrdd yn y sir a gaiff ei heffeithio. | Arweinydd a Phartneriaid | 1. Byddai angen Cytundeb Partneriaeth Diwygiedig.<br>2. Angen adolygu ehangder darpariaeth y gwasanaeth gan yr AP sy'n gadael.<br>3. Angen ad-leoli gwaith i APau eraill neu gadwyn gyflenwi Sector Preifat.<br>4. Byddai angen i'r TRMU gadw cysondeb gwasanaeth<br>5. Ymdrin â Sir Ddinbych sydd wedi tynnu'n ôl yn rhannol | 1. Cymal 12 y Cytundeb Partneriaeth yn ymdrin â'r risg yma - gall yr Awdurdodau Partneriaeth sy'n weddill gytuno ar Gytundeb Partneriaeth ddiwygiedig.<br>2. Cymal 6 y Cytundeb Partneriaeth yn ymdrin â gweithio ar draws y ffin.<br>3. Trefniadau cyflenwi Sector Preifat yn eu lle drwy Fframweithiau os oes angen.<br>4. Ail-ddosrannu rhwydwaith Cyngor Sir Ddinbych yn llwyddiannus drwy gytundeb gyda'r Partneriaid | 2 | 3 | **6** |
| 7P | Anghydfod sylweddol rhwng yr Arweinydd a Phartneriaid | 2 | 2 | **4** | Bygythiad i gyflawniad y gwasanaeth | Arweinydd a Phartneriaid | 1. Dilyn y broses uwchgyfeirio | 1. Cymal 9 y Cytundeb Partneriaeth yn diffinio'r broses uwchgyfeirio. | 1 | 2 | **2** |
| 10P | Methiant i wneud arbedion a ragamcanwyd gan yr Achosion Busnes | 3 | 5 | **15** | 1. Methiant i gwrdd â gofynion arbedion Gweinidogion<br>2. Terfynu WGMA a sefydlu trefniadau caffael gwahanol | Arweinydd a Phartneriaid | 1. Gweithredu prosesau rheoli newid<br>2. Sefydlu Model newydd i'r Asiant<br>3. Sefydlu gweithdrefnau gweithredu newydd | 1. Ymgysylltu ag Awdurdodau Partner<br>2. Cwblhau TUPE / cyn ystyried trosglwyddiadau grŵp staff<br>3. Cwblhau yn sylweddol proses agored i recriwtio staff<br>4. Yr holl Achosion Busnes ar y rhaglen.<br>5. Cyfeiriwch at liniaru 4P<br>6. Archwiliad interim Arcadis yn cadarnhau bod ACGCHC ar y trywydd iawn i ddiwallu ei darged arbedion busnes.<br>7. Arbedion cost terfynol 2017/18 wedi'u cyflawni ac adroddiad wedi'i gyflwyno gan yr Asiant am Gyngor Gweinidogol | 1 | 2 | **2** |
| 11P | Gofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer partneriaethau rhanbarthol llywodraeth leol / cydweithio. | 4 | 4 | **16** | 1. Newid posib i batrwm y gadwyn gyflenwi a'i maint a'r prosesau newid cysylltiedig a allai effeithio ar gyflwyniad y gwasanaeth yn y dyfodol<br>2. Effaith bosib ar barhad busnes | Arweinydd a Phartneriaid | 1. Monitro cynigion gydag Awdurdodau Partner | 1 Model ACGCHC diwygiedig yn cydweddu â'r trefniadau rhanbarthol | 4 | 2 | **8** |

| Rhif | RISG | Tebygolrwydd | Effaith | Sgôr Risg: Tebygolrwydd x Effaith | EFFAITH Y RISG | PERCHENNOG Y RISG | GWEITHREDU RISG | LLINIARU HYD YMA | Tebygolrwydd | Effaith | Sgôr risg yn dilyn camau lleddfu Tebygolrwydd x Effaith |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 12P | Cydymffurfio â Chytundeb Darparu Gwasanaeth | 4 | 4 | **16** | 1. Risg o ymchwiliad Marwolaethau ar Ffyrdd gan AGID/yr Heddlu yn dilyn digwyddiad angheuol.<br>2. Risg o erlyniad amgylcheddol.<br>3. Risg i enw da LlC, ACGCHC ac AP.<br>4. Ddim yn cydymffurfio gyda CDG. | Arweinydd a Phartneriaid | 1. Sefydlu systemau rheoli ansawdd (QMS) achrededig ar gyfer ISO9001,ISO14001, OHSAS18001 ac achrediadau Sector S perthnasol. | 1. Yr holl APau yn cydymffurfio'n llawn.<br>~~2. Rhai APau yn cydymffurfio'n rhannol.~~<br>~~3. Dadansoddiad o'r bylchau yn cael ei gynnal~~<br>4.ACGCHC yn rhoi cymorth drwy'r gweithgor a Rheolwr Iechyd a Diogelwch ACGCHC<br>5. Cyfeiriwch at 2P uchod.<br>6. Pob AP bellach yn cydymffurfio â'r systemau QMS achrededig sydd yn eu lle<br>7. Defnyddio dangosfwrdd perfformiad | 1 | 4 | **4** |

# ATODIAD B


# Dadansoddi Data Gwasanaeth Traffig Cymru

@TrafficWales - N+S


| | | |
|---|---|---|
| 14,081 Likes | 3,549 Mentions | 6,865 New Followers |
| 1,467 Post Replies | 10,982 Retweets | |

Traffig Cymru Traffic Wales


Followers





Likes





Mentions





New Followers




Post Replies





Retweets




## @TraffigCymru - G + D

| | | |
|---|---|---|
| 556<br>Likes | 139<br>Mentions | 308<br>New Followers |
| 83<br>Post Replies | 2,053<br>Retweets | |


Followers





Likes





Mentions





New Followers




Post Replies




Retweets



# ATODIAD C

# Adroddiad Gwasanaeth Swyddog Traffig

**Uned Gweithrediadau (Gwasanaeth Swyddogion Traffig, Ystafell Reoli a Chyfathrebu Traffig Cymru)**


**Cymharu Data, 1af Ionawr hyd 30ain Mehefin 2019 a 2020.**

Cofnododd y Ganolfan Rheoli Traffig, am y cyfnod 1af Ebrill i'r 30ain Mehefin 2019, 8,546 digwyddiad ar Rwydwaith Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru.

Dros y cyfnod 1af Ionawr i'r 30ain Mehefin 2020, cofnododd y Ganolfan Rheoli Traffig 4,478 digwyddiad ar Rwydwaith Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, gostyngiad o dros 48% o'i gymharu â'r un cyfnod adrodd yn 2019.

Priodolir y gostyngiad yn nifer y digwyddiadau a gofnodwyd oherwydd cyflwyno mesurau y cyfnod clo gan y Llywodraeth ym mis Mawrth 2020 i reoli lledaeniad Covid-19. Achosodd y mesurau hyn ostyngiad sylweddol yn y traffig oedd yn defnyddio coridor yr A55/A483.

Mae'r siart isod 'Llif Traffig Dyddiol Gogledd Ddwyrain Cymru' am y cyfnod 1af Mawrth i'r 30ain Mehefin 2020, yn dangos gostyngiad o 69% mewn traffig ar yr A55 yn Nhreffynnon a 62% o ostyngiad ar yr A483 yn Wrecsam yn union wedi gweithredu mesurau'r cyfnod clo.




*Siart Un: 'Llif Traffig Dyddiol Gogledd Ddwyrain Cymru, Mawrth-Mehefin 2020'*
*Yn dangos y gostyngiad sylweddol yn nifer y traffig yn dilyn mesurau'r cyfnod clo*

Er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth cadw pellter cymdeithasol Llywodraeth Cymru, mabwysiadodd Uned Gweithredu'r Asiant arferion gwaith diwygiedig.

Golygodd hyn bod y Gwasanaeth Swyddogion Traffig yn symud o un cerbyd sengl, efo dau arni, i ddau gerbyd, efo un person arnynt.


Mae nifer staff yr Ystafell Reoli wedi ei ostwng i'r isafswm gofynnol, sef dau Weithredwr yn yr ystafell reoli.

Mabwysiadodd Rheolwyr y Tîm Gweithredu arferion gweithio o bell drwy ddefnyddio desgiau ystafell reoli rithiol a wnaed yn arbennig yng Nghanolfan Rheoli Traffig Gogledd Cymru.

Symudodd Tîm Cyfathrebu Traffig Cymru i arferion gweithio o bell gyda gallu llawn i ymateb i ymholiadau drwy amryfal lwyfannau gan barhau i hysbysu rhan-ddeiliaid drwy'r cyfryngau cymdeithasol.


Trwy fabwysiadu'r arferion gwaith yma llwyddodd yr Uned Gweithrediadau i gefnogi a pharhau i gyflawni rhwydwaith cefnffyrdd ddiogel a dibynadwy trwy gydol cyfyngiadau Covid-19.

Mae'r Siart isod yn cymharu Cyfanswm yr Holl Ddigwyddiadau a gofnodwyd gan yr Asiant am y cyfnod 1af Ionawr i'r 30ain Mehefin 2019 a 2020.





*Cymharu Cyfanswm nifer yr Holl Ddigwyddiadau a Gofnodwyd o'r 1af Ionawr - 30ain Mehefin 2019 a 2020.*

Mae'r Siart isod yn cymharu Cyfanswm Digwyddiadau Coridor yr A55 (A55, A494, A550) a gofnodwyd yn ôl mis am y cyfnod. Y cyfansymiau am y cyfnod yw 7,012 digwyddiad yn 2019 a 3,612 digwyddiad yn 2020, sy'n cynrychioli gostyngiad o 48%.




*Cymhariaeth Digwyddiadau Coridor yr A55 yn ôl mis am y cyfnod Ionawr i Fehefin 2019 a 2020*


Mae'r Siart isod yn cymharu Cyfanswm Digwyddiadau Coridor yr A483 a gofnodwyd yn ôl mis am y cyfnod. Y cyfansymiau am y cyfnod yw 1,140 digwyddiad yn 2019 a 642 digwyddiad yn 2020, sy'n cynrychioli gostyngiad o 44%.




*Cymhariaeth Digwyddiadau yr A483 yn ôl mis am y cyfnod Ionawr i Fehefin 2019 a 2020*

Mae llacio'r cyfyngiadau wedi dangos cynnydd diweddar yn nifer y digwyddiadau a reolir gan yr Uned Gweithrediadau i lefelau tebyg i'r flwyddyn flaenorol. Er enghraifft, ar ddydd Gwener 31ain Gorffennaf 2020, deliodd yr uned gyda 43 digwyddiad, o'i gymharu gyda 40 digwyddiad ar ddydd Gwener, 26ain Gorffennaf 2019.

Dros y dudalen ceir graff o'r digwyddiadau yn ôl Categori am fis Chwefror 2020.





*Graff yn categoreiddio math o Ddigwyddiad a nifer y digwyddiadau a reolwyd gan Ystafell Reoli Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru a'r Gwasanaeth Swyddogion Traffig am fis Chwefror 2020, ar Goridor yr A55 a Ffyrdd Deuol a Sengl yr A483.*


# ATODIAD D


# ACGCHC 2019/20
# Perfformiad Gwaith Awdurdodau Partner

## D1 - Perfformiad Gwaith Awdurdodau Partner




| Target | % |
|---|---|
| 24 Hour Temporary / Make Safe Actions | 100% |
| 24 Hour Holding / Permanent Actions | 100% |
| 7 Day Permanent Actions | 95% |
| 28 Day Holding / Permanent Actions | 95% |




Q2 - Closure of Work Instructions - Percentage Closed in 19/20
80%
70%
60%
50%
40%
30%
20%
10%
0%
75%
25%
Other Works

# ATODIAD E

# Ymgynghoriaeth Awdurdod Partner - Adroddiad Cynnydd a Pherfformiad


# E1 Adolygu Prosiect Cyflawni Cyfalaf


## E1.1 Blwyddyn Ariannol 2019/20

Comisiynodd ACGCHC gyfanswm o 311 prosiect i'r Awdurdodau Partner ac Ymgynghorwyr Allanol yn 2019/20, gyda gwerth cronnus o **£8,258,833.00**; wedi ei rannu fel a ganlyn:

| ConsultantName | No. of commissions | Project Total |
|---|---|---|
| AECOM | 1 | 49,686.18 |
| Atkins | 2 | 28,856.80 |
| Ceredigion | 27 | 183,788.24 |
| Conwy | 7 | 117,991.14 |
| Denbighshire | 22 | 154,390.01 |
| Mott MacDonald | 39 | 2,865,069.02 |
| Powys | 80 | 1,745,333.97 |
| WSP | 10 | 991,193.08 |
| YGC | 123 | 2,122,524.56 |
| **Total** | **311** | **8,258,833.00** |

*Noder: Prosesodd YGC daliad am gyflawni'r prosiect cyffredinol yn 2019/20 sef £4.26M, er hynny mae taliadau uniongyrchol a wnaed i'r Contractwr a'r Ymgymerwyr Statudol yn erbyn gwaith pellach ar yr A55 Abergwyngregyn i Tai'r Meibion (cyfanswm o £2.14M) wedi ei dynnu i ddibenion adrodd.*




## E2 Statws Cost y Prosiect

### E2.1 Blwyddyn Ariannol 2019/20

Mae cost gronnus y prosiect ar gyfer y cyfan o 2019/20 yn cynnwys rhaniad o ffioedd ymgynghorol a chostau trydydd parti allanol sy'n gysylltiedig gyda phob comisiwn. Gellir gweld y rhaniad rhwng costau mewnol ac allanol yn y dadansoddiad isod;

| ConsultantName | Activites Total | Expenses Total | Additional Payment Total |
|---|---|---|---|
| AECOM | 49,686.18 | 0.00 | 0.00 |
| Atkins | 28,856.80 | 0.00 | 0.00 |
| Ceredigion | 88,546.74 | 95,241.50 | 0.00 |
| Conwy | 87,171.98 | 30,819.16 | 0.00 |
| Denbighshire | 176,438.51 | 81,252.56 | -103,301.06 |
| Mott MacDonald | 2,816,814.00 | 61,575.26 | -13,320.66 |
| Powys | 1,269,091.58 | 476,242.39 | 0.00 |
| WSP | 991,193.08 | 0.00 | 0.00 |
| YGC | 1,506,815.98 | 572,286.20 | 43,422.38 |
| **Total** | **7,014,614.85** | **1,317,417.07** | **-73,199.34** |

*Noder: Prosesodd YGC daliad yn erbyn treuliau yn 2019/20 sef £2.71M, er hynny mae taliadau uniongyrchol a wnaed i'r Contractwr a'r Ymgymerwyr Statudol yn erbyn gwaith pellach ar yr A55 Abergwyngregyn i Tai'r Meibion (cyfanswm o £2.14M) wedi ei dynnu i ddibenion adrodd.*




## E3 Profi'r Farchnad


### E3.1 Blwyddyn Ariannol 2019/20

Aed ati'n llwyddiannus i brofi'r farchnad yn ystod 2019/20 drwy'r System Rheoli Prosiect (PMS). Dyfarnwyd **22** o gomisiynau yn llwyddiannus gan ACGCHC i'r tendrau mwyaf manteisiol yn economaidd yn dilyn ymarfer profi'r farchnad, dangosir manylion y rhain yn y dadansoddiad isod. Mae hyn gyfystyr â **7.0%** o gomisiynau yn cael eu profi gan y farchnad yn 2019/20 allan o'r **311** comisiwn a ddyfarnwyd.

Roedd comisiynau profi'r farchnad ar gyfer ystod o brosiectau amlddisgyblaethol gyda amcan cost oedd yn llai na £50k, ac felly cawsant eu profi rhwng AP ACGCHC (i waith yn eu hardal ddaearyddol) ac Ymgynghorydd a ffafrir gan ACGCHC i Lot 1 o'r Fframwaith Ymgynghorol.

| ProjectTitle | Awarded | Unsuccessful | % Variance |
|---|---|---|---|
| A470 Roman Bridge Dolwyddelan - Detailed Design & RSA 1/2 | Conwy | Mott MacDonald | 61.73% |
| A5 Swallow Falls Collision Investigation and Prevention Route Study. | Conwy | Mott MacDonald | 22.32% |
| A470 Llanrwst Section A road markings & VAS (NWTRA_004A)- RSA 4 | Denbighshire | Mott MacDonald | 62.92% |
| A5 Capel Curig 30mph limit enhancement - RSA 4 | Denbighshire | Mott MacDonald | 63.07% |
| A5 Dinmael signing & road markings (NWA5_013D) - RSA 4 | Denbighshire | Mott MacDonald | 62.63% |
| A5 Llangollen town Parking restrictions (NWA5_005B)- RSA 4 | Denbighshire | Mott MacDonald | 62.53% |
| A470 Blaenau Ffestiniog Section A Road marking enhancements & VAS (NWTRA_009A) - RSA 4 | Mott MacDonald | YGC | 0.15% |
| A470 Manod Zebra Crossing Review | Mott MacDonald | YGC | 14.40% |
| A487 Bontnewydd Section A & B Signing improvements (NWA487-09A & B) - RSA 4 | Mott MacDonald | YGC | 0.15% |
| A487 Pen Morfa 30mph VAS (NWA487-17) - RSA 4 | Mott MacDonald | YGC | 74.66% |
| A487 Waterloo Port to Pont Seiont VAS proposal - RSA 4 | Mott MacDonald | YGC | 5.21% |
| A5 Betws-y-Coed Section A, B and C Signing, road markings & uncontrolled ped crossing improvements (NWA5-019C) - RSA 4 | Mott MacDonald | YGC | 74.66% |
| A5 Brittania Bridge Signing and road markings improvement (NWA5-29) - RSA 4 | Mott MacDonald | YGC | 76.53% |
| Motorcycle Safety Study - A5 | Mott MacDonald | YGC | 10.93% |
| Newbridge on Wye Pedestrian Crossing Review- LTN1/95 | Mott MacDonald | Powys | 100.00% |
| A483 Builth Wells 30mph Work to improve safety. (MWTRA_A483_13b) - RSA 4 | Powys | Mott MacDonald | 0.23% |
| Agent Management - Ddole Road, Llandrindod Wells | Powys | Mott MacDonald | 25.02% |
| Mid - RSA on Traffic Management that has been on the Network longer than 6 months | Powys | Mott MacDonald | 43.81% |
| A5 Castle St, Llangollen Traffic signals Upgrade | YGC | Mott MacDonald | 75.83% |
| A5 Halton to Gledrid Operational Lay-by/Strengthened Verge (Southbound) | YGC | Mott MacDonald | 46.65% |
| North - RSA on Traffic Management that has been on the Network longer than 6 months | YGC | Mott MacDonald | 77.42% |
| Route Length CIP Study - A487 Cross Foxes to Tal y Llyn junction | YGC | Mott MacDonald | -11.55% |

*Noder: Mae'r '% Amrywiant' wedi ei gyfrif ar sail y gwahaniaeth mewn gwerth rhwng y tendrau llwyddiannus ac aflwyddiannus.*



# E4 Monitro Perfformiad

## E4.1 Blwyddyn Ariannol 2019/20


Mae Noddwyr Prosiect ACGCHC yn parhau i gynnal cyfarfodydd adolygu prosiectau rheolaidd gyda Rheolwyr Prosiect yr ymgynghorwyr drwy wahanol gamau o ddatblygiad cynlluniau; bu'r cyfarfodydd hyn yn amhrisiadwy i fonitro cynnydd, rhaglen a pherfformiad pob comisiwn.


Mae Noddwyr Prosiect ACGCHC ar y cyd gyda Rheolwyr Prosiect yr ymgynghorwyr wedi cwblhau Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) yng ngham cau'r prosiect am **78%** o'r comisiynau yn 2019/20 drwy ddefnyddio PMS a'r dull adrodd DPA, a gwelir y manylion yn y dadansoddiad isod.

Mae'r dadansoddiad isod yn seiliedig ar **240 o ffurflenni DPA** yn cael eu llenwi gyda Noddwyr Prosiectau ACGCHC a Rheolwyr Prosiect yr Ymgynghoriaeth ar draws cadwyn gyflenwi ACGCHC ar y cam cau'r prosiect.

| ConsultantName | Number of Consultancy KPI's Undertaken by Client | Number of Client feedback KPI's by Consultant |
|---|---|---|
| AECOM | 1 | 1 |
| Atkins | 3 | 3 |
| Ceredigion | 24 | 24 |
| Conwy | 14 | 14 |
| Denbighshire | 17 | 17 |
| Mott MacDonald | 22 | 22 |
| Powys | 62 | 62 |
| YGC | 97 | 97 |
| **Total** | **240** | **240** |

Isod, gwelir sgoriau cyffredinol DPA yr ymgynghoriaeth a'r cleient yn 2019/20:




Cafodd yr holl gwestiynau DPA eu sgorio yn unol â'r diffiniadau isod:

| Definition | Scores |
|---|---|
| Totally satisfied – Performance related to this KPI could not have been bettered | 9 - 10 |
| Good - Performance is such that at least 50% of the KPI requirements have been bettered | 7 - 8 |
| Neither satisfied nor dissatisfied – the minimum requirements of the commission related to this KPI have been met | 4 - 6 |
| Poor - Performance is such that not all of the minimum requirements related to this KPI have been met | 2 - 3 |
| Totally dissatisfied – Performance is such that all requirements related to this KPI have failed to be achieved | 1 |
| Not Applicable – This was not applicable to the project | *N/A* |

## E5 Cyllid

Cyflawnodd ACGCHC raglen Gyfalaf Llywodraeth Cymru am 2019/20, gyda gwariant yn ystod y flwyddyn o £40.71M ar draws yr Asiantaeth (gweler ffigwr 1). Cyflawnwyd **£8.26M** gan Dîm Cyflawni Gwaith Cyfalaf ACGCHC.

## E6 Prosiectau Sylweddol Cyflawni Gwaith Cyfalaf ACGCHC

Isod, ceir diweddariad ar sawl comisiwn Cyfalaf a gyflawnir ar hyn o bryd gan ACGCHC ar ran Llywodraeth Cymru sydd o bwysigrwydd strategol a gweinidogol ar y rhwydwaith Cefnffyrdd:

**Cyfleoedd Goddiweddyd Canolbarth Cymru (ACGCHC/CGC)** - Cwblhawyd WelTAG Cam 1; WelTAG Cam 2 i'w gwblhau yn nechrau 2020, yn amodol i gynnal digwyddiad ymgysylltu ac ymgynghori gyda thirfeddiannwyr. Opsiynau a ffafrir sy'n codi i'w datblygu ymhellach yn 2020.

**A55 Cyffordd 19 Glan Conwy (ACGCHC/CGC)** - Cwblhawyd WelTAG Cam 1; Mae WelTAG Cam 2 (yn cynnwys ymgynghori) wedi'i gwblhau yn llwyddiannus. WelTAG Cam 3 a'r dyluniad manwl bron a'i orffen gyda adeiladu'r opsiwn a ffafrir i ddechrau yn gynnar yn 2020.

**A5/A483 Cylchfan Halton (ACGCHC/CGC)** - Cwblhawyd WelTAG Cam 1; WelTAG Cam 2 i'w gwblhau erbyn dechrau 2020, yn amodol i gynnal digwyddiad ymgysylltu ac ymgynghori gyda'r tirfeddiannwr. Opsiynau a ffafrir yn codi a'u datblygu ymhellach yn 2020.

**A483 C3-C6 Wrecsam, Astudiaeth Capasiti (ACGCHC/Motts)** – Proses Cam Allweddol 2 Llywodraeth Cymru yn mynd rhagddo yn dda, gan ymgynghori ar yr ymchwiliadau rhagarweiniol yn nechrau 2020, dylai hyn gwblhau proses Cam Allweddol 2 LlC gyda chyflwyniad adroddiad WelTAG Cam 2. Ymrwymiad presennol Llywodraeth Cymru i gyflawni Cam Allweddol 3 a 4 yn cynnwys WelTAG Cam 3 o'r opsiwn/opsiynau a ffafrir yn 2020.

**A494 Cynllun Gwella Pont afon Dyfrdwy (ACGCHC/Motts)** - Yn dilyn cyhoeddiad gweinidogol ar y 18fed Medi 2019 i fwrw ymlaen gyda'r opsiwn a ffafrir, cyflwynwyd WelTAG Cam 3 - Achos Busnes Llawn yn llwyddiannus i Lywodraeth Cymru oedd yn cefnogi'r opsiwn a ffafrir. Parhaodd y dyluniad rhagarweiniol, yn cynnwys arolygon amgylcheddol a gwaith ymchwiliad tir, drwy 2019/20 gan gynnal gwaith dylunio uwch ar agweddau allweddol o'r prosiect h.y. pont newydd i'r gorllewin gan Network Rail) i dynnu risgiau rhaglen adeiladu oherwydd cymeradwyon Network Rail a'r broses meddiant rheilffordd. Cyflwynwyd Gorchmynion Drafft a Datganiad Amgylcheddol gyda chyhoeddiad y Gorchmynion a phenderfyniad i gael ei wneud yn nechrau 2020; dylai hyn gwblhau'r broses statudol.

**A55/A494 Gwytnwch y Rhwydwaith (ACGCHC/CGC)** - Yn dilyn cwblhau adroddiad WelTAG Cam 1 yn llwyddiannus yn ôl yn 2017/18, mae adroddiad WelTAG Cam 2 wedi ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Yn ystod 2019/20, comisiynodd ACGCHC a chyflawni'r holl opsiynau budd cyflym a nodwyd yn yr adroddiad Cam 2, yn ogystal ag ystod o opsiynau tymor byr. Cynhelir ymarfer caffael pellach yn nechrau 2020 i ddatblygu opsiynau'r tymor canolog a hirdymor yn ogystal â Chamau 3 i 5 WelTAG ar y prosiectau a gyflawnwyd hyd yma.

**Cyfyngiad Cyflymder ac Adolygiad Diogelwch 2019 - Ar draws y Rhwydwaith (ACGCHC/Motts/Aecom)** - Llwyddodd tîm Peirianyddol Traffig ACGCHC i gomisiynu a chyflawni'r cyfyngiad cyflymder ac adolygiad diogelwch ar ran Llywodraeth Cymru, gan adnabod 300 o safleoedd i'w hadolygu ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru. Cynhelir rhaglen datblygu cynllun yn 2020.

# ATODIAD F

# Adroddiad Statws Contractau Fframwaith ACGCHC

Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru
North & Mid Wales Trunk Road Agent

| | |
|---|---|
| ODDI WRTH: **Mark Jones** Rheolwr Masnachol a Chontractau | I: **Dave Cooil,** Rheolwr yr Asiant |
| **DYDDIAD: 29/07/2020** | Cc: **Ian Hughes,** Rheolwr Busnes |

**Proses Gaffael Contract, Fframweithiau ACGCHC**
**Adroddiad Statws**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **1.** | **Trosolwg** | | | |
| | *Nodyn briffio yn rhoi diweddariad ar statws a chynnydd fframweithiau ACGCHC.* | | | |
| **1.1** | **Fframweithiau ACGCHC** | | | |
| | **Fframwaith** | **Contract NEC** | **Dyddiad Dyfarnu'r Contract** | **Dyddiad Gorffen** |
| | Contractwr | NEC4 | 27/04/2020 | 27/04/2022 *(+2fl I'w gadarnhau)* |
| | Ymgynghoriaeth | NEC4 | 07/09/2018 | 06/09/2021 *(+1fl I'w gadarnhau)* |
| | Wynebu | NEC3 | 13/06/2016 | 13/12/2020 *(wedi ei ymestyn +1fl + 6 mis)* |
| | Technoleg | NEC4 | 29/10/2018 | 22/10/2021 *(+1fl I'w gadarnhau)* |
| | Rheolaeth Traffig | NEC4 | 11/06/2019 | 11/06/2022 *(+1fl I'w gadarnhau)* |
| | Gwaith coed | NEC4 | Rhagwelir Medi 2020 | Medi 2022 *(+2fl I'w gadarnhau)* |
| **2.** | **Fframweithiau, cyffredinol** | | | |
| **2.1** | **Fframweithiau Contractwr** | | | |
| 2.1.1 | Cyhoeddi Fframwaith Newydd, Hysbysiad Dyfarnu Contract ar 27 Ebrill 2020. | | | |
| 2.1.2 | Patrwm Lotiau;<br>• Lot 1a; Gogledd a Chanolbarth Cymru, yn cynnwys yr holl Waith Ffyrdd Deuol (£0 - £5,000,000);<br>• Lot 1b; Gogledd a Chanolbarth Cymru, yn cynnwys holl Waith Ffyrdd Deuol (£5M - £30M);<br>• Lot 2a; Gogledd Cymru, ac eithrio Gwaith Ffyrdd Deuol (£0-£1,000.000);<br>• Lot 2b; Canolbarth Cymru, ac eithrio Gwaith Ffyrdd Deuol (£0-£1,000.000); | | | |
| 2.1.3 | Cyflenwyr Fframwaith fesul Lot: -<br>• Lot 1a; 5 contractwr;<br>• Lot 1b; 3 contractwr; | | | |

| | |
|---|---|
| | • Lot 2a a 2b; 7 a 6 contractwr ym mhob un yn ôl y drefn. |
| 2.1.4 | Monitro Perfformiad Chwarterol Fframwaith Contractwyr o fis Medi 2020. |

| | |
|---|---|
| **2.2** | **Wynebu** |
| 2.2.1 | Cyfnod yr Fframwaith presennol wedi ei ymestyn o chwe mis oherwydd effeithiau andwyol COVID-19, *dyddiad gorffen* ar 13 Rhagfyr 2020. |
| 2.2.2 | Fframwaith newydd yn cael ei lunio ar hyn o bryd; mae'r rhaglen fel a ganlyn:-<br>• Cyflwyno tendr; diwedd Gorffennaf 2020;<br>• Dyfarnu'r Contract; Hydref 2020. |
| 2.2.3 | Tîm Masnachol ACGCHC yn cyflwyno nodyn briffio Strategaeth Caffael i'r AP yn Chwefror 2020. Tîm Masnachol wedi cynnal gweithdai gyda LlC, AP a Chyflenwyr i gasglu adborth, gwersi a ddysgwyd, gofynion technegol a manylebau ac ati. |
| **2.3** | **Ymgynghoriaeth amlddisgyblaethol** |
| 2.3.1 | Dyddiad dechrau; 7fed Medi 2018. Dyddiad Gorffen; 6ed Medi 2021. Mae ACGCHC yn bwriadu defnyddio'r estyniad o flwyddyn, estyniad tan fis Medi 2022. |
| 2.3.2 | Tîm Masnachol yn cynnal cyfarfodydd adolygu Chwarterol gyda Motts, Atkins, WSP ac AECOM. |
| 2.3.3 | DPA a Monitro Perfformiad Chwarterol Fframwaith Ymgynghorwyr yn parhau. Dim materion na phryderon pwysig wedi eu nodi, perfformiad da wedi ei gofnodi yn gyffredinol gyda'r mwyafrif o'r materion yn cael eu rheoli ar lefel prosiect. |
| 2.3.4 | Adborth cyffredinol gan Ymgynghorwyr:-<br>• Cyfleoedd cyfyngedig ar gyfer cyfleoedd mini-gystadleuaeth i'r holl Ymgynghorwyr Fframwaith. Mae trothwy gwerth mini-gystadleuaeth wedi ei haneru o'r contract blaenorol, er hynny, nid yw hyn hyd yma, wedi ei ddiwallu gan sawl comisiynau o werth digonol i annog mwy o dendrau mini-gystadleuaeth;<br>• Hysbysiad cynharach o gyfleoedd y rhaglen ymlaen, yr hyn sydd ar y gweill a thendr i sicrhau bod ymgynghorwyr yn gallu darparu adnoddau priodol a chyflwyno tendrau cystadleuol a bona fide;<br>• Angen mwy o dryloywder o'r broses profi'r farchnad fel sy'n ofynnol dan y CDG, gyda'r Ymgynghorydd a osodwyd gyntaf (llwybr a ffafrir) yn gorfod treulio amser ac adnoddau ar gyflwyniadau. |
| **2.4** | **Technoleg** |
| 2.4.1 | Dyddiad dechrau; 29ain Hydref 2018. Dyddiad Gorffen; Hydref 2021. Mae ACGCHC yn bwriadu defnyddio'r estyniad o flwyddyn, estyniad tan fis Hydref 2022. |
| 2.4.2 | Defnydd cyfyngedig o rai Lotiau o'r Fframwaith, yn arbennig Lot 2 Goleuadau Stryd Prifforddd a Lot 5 Mân Waith Sifil Ategol. Ystyriwch hysbysiad i HoS PA i hyrwyddo'r Lotiau ar y fframwaith hon. Anogir cyflenwyr yn gryf i hyrwyddo eu safle ar y Fframwaith a cheisio cyfleoedd o fewn cwmpas y Lotiau perthnasol. |

| | |
|---|---|
| 2.4.3 | Mae dau gyflenwr (Dawnus ac Aspin) wedi rhoi'r gorau i fasnachu, gan leihau gwytnwch o fewn rhai o'r Lotiau (Lot 5 yn benodol). Nid yw hyn wedi achosi unrhyw broblemau hyd yma ac mae yn cael ei fonitro. |
| 2.4.4 | DPA a Monitro Perfformiad Chwarterol Fframwaith Technoleg allweddol cyflenwyr yn parhau. Dim pryderon mawr wedi eu nodi, perfformiad da wedi'i gofnodi. |
| 2.4.5 | Adborth cyffredinol gan Gyflenwyr:-<br>• Defnydd o'r fframwaith yn cynnwys gweinyddiaeth y contract a Data Contract, yn gyffredinol yn dda heb unrhyw broblemau;<br>• Cyfathrebu a chydlynu da rhwng staff y prosiect a Chyflenwyr Fframwaith, gyda hysbysiad da a chynnar o brosiectau / comisiynau;<br>• Wedi bod yn anodd gweld yr holl waith sy'n mynd drwy'r fframwaith gan nad yw'r holl Gyflenwyr yn mewngofnodi comisiynau ar gofrestr prosiect a ddarparwyd gan y Tîm Masnachol. |
| **2.5** | **Rheolaeth Traffig** |
| 2.5.1 | Dyddiad dechrau; 11eg Mehefin 2019. Dyddiad Gorffen; Mehefin 2022. |
| 2.5.2 | Cydgysylltu eang (ACGCHC Masnachol a Gweithrediadau) gyda staff allweddol Masnachol a Gweithredol o gyflenwyr allweddol ers dyfarnu'r contract ym Mehefin 2019, yn enwedig yn berthnasol â chyfleoedd Fframwaith (rhaglenni AP), symudiadau yng ngogledd Cymru a gofynion gweithredol. |
| 2.5.3 | Tîm Masnachol yn ystod chwarter cyntaf y Fframwaith wedi'i adnabod, drwy'r prosesau monitro perfformiad a weithredwyd yn y Fframwaith, sawl mater perfformio negyddol gan AP, ACGCHC RhLlC a chyflenwr. Materion negyddol yn cynnwys amser cynllunio annigonol a chwmpas y gwaith, a rolau a chyfrifoldebau CDM 2015 a'r dylunydd rheoli traffig. |
| 2.5.4 | TM yn gweithredu camau unioni yn cynnwys cydgysylltu gyda Rhys Williams, Rheolwr Rhwydwaith a RhLlC ACGCHC a gweithdai AP a gynhaliwyd yn chwarter olaf 2019. |
| 2.5.5 | Gyda dros flwyddyn ers cychwyn y fersiwn gyntaf o'r contract, mae'r perthnasau, prosesau ac arferion da wedi eu mireinio mewn sawl ardal. Golygodd cyflwyniad y contract bod deialog adeiladol rhwng defnyddwyr AP y fframwaith a'r cyflenwyr allweddol. Ymddengys y cyflawnwyd mwy o gysondeb wrth gymhwyso Rheolaeth Traffig (RhT) ar draws y rhwydwaith cefnffyrdd, gan roi mwy o ystyriaeth yn benodol i gydymffurfio gyda Phennod 8 ac arfer dda. |
| 2.5.6 | Bwriedir adolygu'r effaith ar gost RhT yn dilyn cyflwyno contract y rhwydwaith, ond bydd y canlyniadau yn amrywio yn ôl AP, o gofio nad oedd dull cyson gyda chaffael cyn y contract. |
| 2.5.7 | Mae un cyflenwr (Ekult) wedi rhoi'r gorau i fasnachu, gan leihau gwytnwch yn Lot 5. Nid yw hyn wedi achosi unrhyw broblemau hyd yma ac mae yn cael ei fonitro. |
| **2.6** | **Gwaith coed** |
| 2.2.1 | Fframwaith newydd, statws fel a ganlyn: -<br>• Cyflwyno tendr; Gorffennaf 2020;<br>• Rhagwelir Dyfarnu'r Contract; Medi 2020. |

| | |
|---|---|
| 2.2.2 | Bydd y Fframwaith newydd yma ar gael i'r AP i gomisiynu gwaith. |
| **3.** | **Risgiau fframwaith** |
| 3.1 | • Rheoli a defnyddio dogfennau contract ac ariannol; cywirdeb amodau'r Contract a'r cyfraddau cyfredol;<br>• Ffurfioli'r contract; cyflwyno Data Contract Rhan 1:<br>• Diffyg cysondeb ac ansawdd proses a gweithdrefn;<br>• Diffyg cysondeb ac ansawdd gweinyddu contract;<br>• Cyflawni gwerth gorau ariannol drwy ddyfarnu caffael uniongyrchol. |

# ATODIAD G

## Cylch Gorchwyl y Cydbwyllgor
**(Detholiad o Gytundeb Partneriaeth 2012)**

## 9 The Joint Committee

9.1 The Authorities shall form a joint committee (The North and Mid Wales Trunk Road Agency Joint Committee) for the purpose set out in clause 9.2

9.2 The Joint Committee shall be responsible for supporting the Lead Authority and Service Provider Units in meeting the requirements of the Agency Agreement and its terms of reference shall be:-

9.2.1 to monitor work allocation to Service Provider Units

9.2.2 to ensure that the TRMU satisfies Welsh Government requirements with regard to the Agency Agreement

9.2.3 to monitor performance of Service Provider Units

9.2.4 to receive reports on the management of the Partnership arrangements, and to take any necessary action to ensure that the operation of the Partnership is satisfactory

9.2.5 to monitor arrangements and proposals to enable continuous improvement of the service provided to the Welsh Government under the Agency Agreement

9.2.6 to consider issues referred to the Joint Committee under clause 9.6.

9.3 Meetings of the Joint Committee

9.3.1 The Inaugural Meeting shall take place as soon as practicable following the signing of this Agreement. The Joint Committee shall thereafter meet at intervals agreed by the Joint Committee but at least once in every Financial Year and

9.3.2 the first meeting of the Joint Committee in any Financial Year shall take place before 30$^{th}$ September in that year

9.3.3 the time and venue for meetings of the Joint Committee shall be determined by the Chairman.

9.3.4 the provisions of paragraph 3 of Part 1 of Schedule 12 to the 1972 Act (calling of extraordinary meetings) shall apply to this Agreement subject to the variation that references to "five members" in that paragraph shall be construed as references to "Four Authorities"

9.4 Constitution of the Joint Committee

9.4.1 The Joint Committee shall consist of eight (8) councillors one (1) from each of the Authorities. Deputies will be allowed when the appointed member for an authority is unable to attend.

9.4.2 Each Authority shall have one vote. Unless otherwise stated decisions shall be made by simple majority of votes. The quorum shall be at least one member from each of five Authorities.

9.4.3 Save as varied by this Agreement the Standing Orders of the Lead Authority shall apply to the proceedings of the Joint Committee and that Authority shall be responsible for the administrative arrangements in connection with the convening of meetings of the Joint Committee.

9.4.4 The proper officer of the Joint Committee for the purposes of the 1972 Act shall be the Chief Executive of the Lead Authority and the Scheme of Delegation of the Lead Authority shall apply so far as it is relevant.

9.5 Chairman and Vice-Chairman

9.5.1 The Chairman and Vice-Chairman of the Joint Committee in any year shall not be from the same Authority.

9.5.2 The Chairman and Vice-Chairman may be consulted on amendments or variations to the Agency Agreement and on the entering into of further Agency Agreements

9.6 Role of Officers

9.6.1 The Chief Officers shall ensure service delivery in accordance with this Agreement and any other agreements between the Lead Authority and Service Provider Units, and in accordance with the Agency Agreement

9.6.2 The Agency Manager shall act as reporting officer to the Joint Committee assisted as necessary by the Chief Officers

9.6.3 If any Chief Officer has reason to consider that the TRMU is procuring services in a way which is inconsistent with this Agreement he shall be required in the first place to raise the matter with the Agency Manager in order to resolve the issue;

9.6.4 If the Agency Manager considers that a Service Provider Unit is not fulfilling the requirements of this Agreement he shall raise the matter in the first place with the Chief Officer responsible for the Service Provider Unit in order to resolve the matter

9.6.5 If the issues raised in sections 9.6.3 or 9.6.4 remain unresolved, then the Chief Officer for the Service Provider Unit and the Corporate Director of the Lead Authority will consider the issue and seek to resolve the matter.

9.6.6 If, having considered the matter the issue remains unresolved the Chief Officer or the Corporate Director may refer the matter to the Joint Committee for determination.